

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Bob Davies (Llanfair) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Haydn Young (Llanefydd) gafodd lawdriniaeth yno yr wythnos ddiwethaf. Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt oll ac am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i'w ofal.
- Llongyfarchiadau a phob bendith i Sian Jones, Fferwd sydd wedi cael ei dewis i wasanaethu fel blaenores yng Nghapel Tanyfron. Diolchwn i Dduw amdani a bydded Ei fendith ar yr eglwys.
- Llongyfarchiadau hefyd i Geraint Ames (Groes) a Catrin ar enedigaeth merch, chwaer fach i Ifan. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig hon, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Gweu i blant y byd

Un o'r syniadau a ddaeth trwy'r Rhaglen Dorcas ac a ddenodd ddi-ddordeb nifer o'r Ofalaeth hon oedd gweu hetiau 'beanie' er mwyn eu rhoi mewn bocsys esgidiau gydag arhegion eraill ar gyfer y cynllun *Operation Christmas Child*. Bwriad y cynllun yw arddangos cariad Duw i blant mewn angen ar draws y byd. Gwyddom fod nifer ohonoch wedi bod yn brysur yn gweu dros yr haf. Os nad ydych eisoes wedi gwneud trefniadau o ran eu casglu, byddai Elinor Owen neu Mair yn ddiolchgar o'u derbyn **erbyn Nos Sul, Tachwedd 10fed**, os gwelwch yn dda, er mwyn eu hanfon ymlaen i gael eu dosbarthu.



I ddod

- **PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca, Tachwedd 8fed – 10fed. Nid penwythnos ar gyfer blaenoriaid newydd yn unig yw hwn, mae croeso cynnes i unrhyw flaenor i fynychu. Manylion llawn ar gael gan Mair. Cysylltwch mewn da bryd, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni fedru archebu lle ar eich cyfer.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Bethania, Rhuthun dydd Mercher, Tachwedd 13eg o 10.00 – 3.00.
- **GWASANAETH SEFYDLU Y PARCH. HYWEL EDWARDS** yn weinidog ar Ofalaeth Ardal Thomas Charles nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7.00 yng Nghapel Tegid, y Bala. Croeso i bawb.
- **NOSON ARBENNIG I LANSIO'R LLYFR "CAPEL CEFN MEIRIADOG DDOE A HEDDIW"** gan Mr Meurig Owen yng Nghefn Meriadog Nos Iau, Rhagfyr 5ed am 7.30. Bydd cyfle am sgwrs, paned a mins pei ar ôl. Croeso cynnes i bawb.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27^{ain} Hydref 2013

Darlleniad y Dydd

Rhufeiniaid 4:1-8

(BCND tud.167 / BCN: tud.153)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Mae'r Hydref wedi dod â'i liwiau godidog i'r fro. Gymaint o wahaniaeth mae llygedyn o haul yn ei wneud! Gall pob peth ymddangos mor llwm a di-nod pan mae'r dyddiau'n llwyd a chymylog ond, unwaith y daw un eiliad o haul, mae'r cyfan yn newid yn llwyr. Mae'r ddeilen fach grin yn troi'n chwalfa o liw aur a phrydferthwch ar bob llaw. Heddiw, byddai'n dda cael profi presenoldeb Duw fel haul yn taro'n oleuni cryf ar ein henaid a'n haddoliad. Rydan ni'n teimlo weithiau fod ein haddoliad yn grin ac yn anheilwng ond byddai un eiliad o oleuni'r Ysbryd yn newid y cyfan ac yn gwneud y cyfan yn hardd ac yn ogoniant i'n Harglwydd Iesu. Croeso i oedfaon y dydd ac i ddiwrnod newydd o fendith Duw!

Cawsom olwg newydd gan John Derek nos Sul ar lyfr y Pregethwr a'r penodau cyntaf lle mae'r Gair yn disgrifio pob peth yn y byd hwn fel gwagedd! Mae'r Pregethwr yn profi pob peth – pleser, doethineb, llwyddiant, enwogrwydd ac yn y blaen. Mae hyd yn oed yn creu nefoedd ar y ddaear iddo'i hun ond yn gweld pen draw pob peth fel gwagedd. Yn ei ffordd ddihafal ei hun disgrifiodd Derek gyflwr y Pregethwr fel un digalon iawn ac yn mynd o ddrwg i waeth! Mor wahanol yw cyflwr y bobl y darllenwn amdanynt heddiw yn llythyr Paul at y Rhufeiniaid.

“Gwyn eu byd y rhai y maddeuwyd eu troseddau” (Rhuf. 4: 7)

Nid gwagedd o fath yn y byd ydi derbyn maddeuant Duw! Gwynfyd ydi o sy'n werth mwy na holl gyfoeth y byd!

Rydym yn cychwyn ar gyfres newydd heno yn Oedfa'r Fro a gobeithio y medrwydd ddod atom dros yr wythnosau nesaf. Y Salmau fydd yn cael y sylw gennym. Dyma ganeuon moliant Israel a byddai'r Salmau ar gof pobl Israel fel y mae'n hemynau ni ar ein cof ninnau.

Mae'r Salmau yn cyfleu ein profiadau dyfnaf ni ond hefyd maen nhw'n disgrifio Duw a'i drugaredd a'i fawredd. Yn aml bydd y salmydd yn edrych i fyny o'i argyfwng ac yn gweld fod Duw yn agos iawn ato drwy'r amser. Dyma sy'n gwneud y salmau yn felys i ni.

Diddorol fydd sylwi hefyd pa mor aml y mae'r Testament Newydd yn cynnwys dyfyniad o un o'r Salmau fel yn y darlleniad heddiw. Dyfyniad sydd yma o Salm 32. Beth am gael golwg arni? O'i darllen yn yr Ysbryd, fe all – fel y ddeilen grin – droi yn aur pur i ni!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau • **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a chynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch i'r teulu cyfan am 2.00 yng nghwmni Arawn Glyn. Bydd cyfle hefyd i roi rhoddion tuag at y Banc Bwyd, os gwelwch yn dda.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant am 10.00 a bydd Aneurin yn rhoi sgwrs i ddilyn. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15, a bydd Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a'r Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes,
trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu,
a chyrraedd ein cymunedau.